

Gweithgaredd 2: Map Llun



Cyswllt cwricwlwm Cymru:

- Y Dyniaethau
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles

Cyswllt cwricwlwm Lloegr:

Celf (datblygu meistrolaeth technegau arlunio);
Daearyddiaeth (sgiliau a gwaith maes daearyddol); SMCS (parch i gredoau pobl eraill).

Amser: 1-2 awr

Adnoddau i'w lawrlwytho: Dim

Adnoddau eraill sydd eu hangen:

Papur A4 plaen, pensiliau, clipfyrddau

Maint y grŵp:
Dosbarth cyfan

Cynllun y gweithgaredd:

- Rhowch bapur plaen, a phensil a chlipfwrdd i bob dysgwr.
- Eglurwch y dasg cyn dechrau eich taith.
- Fel y cerddwch o amgylch y warchodfa, mae pob dysgwr yn llunio map o'r daith gyda'r nodweddion pwysig wedi'u labelu. Bydd y pethau y byddant yn labelu yn dibynnu ar y pwnc yr ydych wedi gofyn iddynt ganolbwyntio arno.
- Dechreuwch gyda'r ganolfan ymwelwyr ar unai ben neu waelod y dudalen.
- Dyma rai syniadau o leoliadau i stopio i greu llun: Y bont, wrth ymyl y grisiau ar y llwybr, wrth ymyl y creigiau wrth y llyn, ar y traeth, ar y garreg fawr ar yr ochr dde i'r llyn, wrth y nant ac ati.
- Gallwch gynnwys allwedd a graddfa i'w wneud yn fwy o her.
- Gallwch ofyn i'r dysgwyr ychwanegu arogleuon, synau, teimladau, tywydd, lliwiau, crynodeb o eiriau ac ati,
- Ar y diwedd, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar fapiau ei gilydd a nodi'r gwahaniaethau, heb feirniadu. Anogwch y dysgwyr i ystyried sut mae barn a phersbectif personol yn siapio'r ffordd yr ydym yn dehongli ein profiad.

Syniadau gweithgareddau dosbarth y gallwch eu gwneud cyn neu ar ôl eich ymweliad:

- Ceisiwch gael hyd i luniau i'w hychwanegu i'r map i greu collage
- Rhowch fwy o nodiadau ar y map gyda manylion pellach a ffeithiau/ eglurhad.
- Llunio map o'u taith i'r ysgol.